GRIFFITHS, ANN (1776 - 1805), emynyddes

Enw: Ann Griffiths
Dyddiad geni: 1776
Dyddiad marw: 1805
Priod: Thomas Griffiths
Plentyn: Elizabeth Griffiths
Rhiant: Jane Thomas
Rhiant: John Thomas
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: emynyddes
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd fis Ebrill 1776 yn Dolwar Fach, Llanfihangel yng Ngwynfa, Sir Drefaldwyn, (bedyddiwyd 21 Ebrill 1776), merch John (bu farw c. Chwefror 1804) a Jane Thomas (bu farw 1794). Yr oedd ei rhieni yn mynychu eglwys y plwyf. Cawsant bump o blant (1) Jane, 1767, (2) John, 1770, (3) Elizabeth, 1772, (4) Ann, a (5) Edward (1779). Ymdriniwyd yn helaeth â'r plant (a'u disgynyddion) gan David Thomas, yn *Eurgrawn* 1959-60, ac yn *Ann Griffiths a'i theulu* (1963). Priodwyd Jane yn 1794 â Thomas Jones, siop Ty Cornel, Llanfyllin, a merch i'w hwyr John Jones oedd Margaret Jane Jones, priod y gweinidog a'r llenor Owen Jones (1833 - 1899); bu hi farw yn Ionawr 1909.

Yr oedd yn hoff o fywyd ysgafn yn ei hieuenctid, ond dwysaodd ar ôl gwrando ar Benjamin Jones, Pwllheli, yn pregethu. Ymunodd â'r seiat Fethodistaidd ym Mhont Robert yn 1797; daeth i gyswllt â John Hughes, athro a phregethwr, a bu'n gohebu llawer ag ef. Âi i sasiynau'r Bala, a buan y gwelwyd ei bod yn ferch allan o'r cyffredin.

Priododd Thomas Griffiths (1779 - 8 Ebrill 1808), ffermwr o Feifod, ar y 10 Hydref 1804, a bu farw yn Awst 1805, ar ôl geni ei chyntaf-anedig; claddwyd hi yn Llanfihangel, 12 Awst.

Adroddai ei hemynau wrth Ruth Evans, ei morwyn; trysorodd hithau hwynt yn ei chof, ac ar ôl ei phriodas â John Hughes fe'u hysgrifennwyd hwynt ganddo mewn dau ysgriflyfr. Ef, mae'n ddiau, a'u rhoes yn llaw Thomas Charles o'r Bala, a chredir mai Robert Jones, Rhos-lan, a'u paratôdd i'w cyhoeddi. Cyhoeddwyd hwynt yn arg. 1805 o *Grawn-Syppiau Canaan*, ac wedyn (1806) yn *Casgliad o Hymnau gan mwyaf heb erioed eu hargraffu o'r blaen* (Bala, R. Saunderson). Ymddangosodd arg. arall, dan yr un teitl, o wasg J. Evans, Caerfyrddin, yn 1807; ac un arall eto yn 1808 dan y teitl, *Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen* (Bala, Saunderson). Cyhoeddwyd cynnwys ysgriflyfrau J. Hughes gan (Syr) Owen M. Edwards yn *Gwaith Ann Griffiths* ('Cyfres y Fil'), 1905; yn hwnnw bellach y ceir testun gwreiddiol ei hemynau. Nodweddir hwynt gan gyfeiriadau ysgrythurol cymhleth, profiad ysbrydol dwfn, cyfriniol; a ffigurau ymadrodd beiddgar. Ysgrifennwyd hwynt, gan mwyaf, ar y mesur wyth saith clonciog - mesur a rydd gryn drafferth i gerddorion yn ogystal ag i olygwyr casgliadau emynau.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Y Traethodydd, 1846, 420-33

Cymru (O.M.E.), Ionawr 1906

Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, iii, 110-29, 172-87

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, vi, 2-7

Morris Davies, *Cofiant Ann Griffiths gynt o Dolwar Fechan, Llanfihangel yn Ngwynfa, Swydd Drefaldwyn Ynghyd a'i llythyrau a'i hymnau* (1865)

E. Griffiths, *Ann Griffiths ei llythyrau a'i hemynau, ynghyd a byr-nodiad ar ei bywyd a'i gweithiau* (1903)

H. Elvet Lewis, *Ann Griffiths ei Hanes a'i Hemynau*

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945), 14-8

J. Thickens, Gomer M. Roberts (gol.), *Emynau a'u Hawduriaid* (1961), 12-16

Archifau LlGC: NLW MS 682E: Ann Griffiths family documents

Archifau LlGC: NLW MS 694D: Llythyr at Elizabeth Evans

Archifau LlGC: NLW MS 4756B: Llyfr meddyginiaethau

Llawysgrifau Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yng ngofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 5863-4

Darllen Pellach

William Morris, *Cofio Ann Griffiths* (Caernarfon 1955)

John Ryan, *The hymns of Ann Griffiths* (1980)

Siân Megan, *Gwaith Ann Griffiths* (Llandybie 1982)

E. Wyn James, *Rhyfeddaf Fyth ...* (1998)

Prifysgol Caerdydd: gwefan Ann Griffiths

Archifau LlGC: NLW MS 694D: Llythyr yn llaw Ann Griffiths (1776-1805)

Erthygl Wicipedia: Ann Griffiths

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 8700882

Wikidata: Q3403496

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu